

Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim

Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol

Cyflwyniad

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei chynigion ar gyfer meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim rhwng 6 Mehefin a 14 Medi 2018.

Derbyniwyd cyfanswm o 98 o ymatebion a chawsant eu dadansoddi gan *Strategic Research and Insight* ar ran Llywodraeth Cymru. Mae eu hadroddiad dilynol yn manylu ar y materion a godwyd gan ymatebwyr ac mae copi ar gael drwy'r ddolen ganlynol: <https://beta.llyw.cymru/meini-prawf-cymhwysa-ar-gyfer-prydau-ysgol-am-ddim>

Gellir grwpio'r ymatebion i'r ymgynghoriad i nifer o themâu trosfwaol. Defnyddiwyd y themâu hyn fel penawdau adrannau yn y ddogfen hon, sy'n rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion a godwyd ac y dylid ei ddarllen hefyd ar y cyd â'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ymateb Llywodraeth Cymru i faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus

Camddealltwriaeth ynghylch y trothwy

Dangosodd y dadansoddiad o'r ymatebion nad oedd nifer o ymatebwyr yn glir sut y byddai'r trothwy incwm net blynyddol a enillir o £7,400 yn cael ei gyfrifo a sut y byddai'n cael ei gymhwyso. Mewn rhai achosion credwyd bod £7,400 yn ymwneud â chyfanswm yr incwm a dderbynnir ac nid incwm a enillir yn unig. Mewn achosion eraill, roedd yr ymatebwyr yn ansicr a oedd y trothwy enillion fesul aelwyd neu fesul person a beth oedd yn union oedd yn "enillion".

Mae'r ddogfen ymgynghori'n dweud nad yw'r trothwy enillion net yn cynrychioli cyfanswm incwm aelwyd ac yn nodi, y byddai gan deulu nodweddiadol sy'n ennill tua £7,400 y flwyddyn, yn dibynnu ar eu hunion amgylchiadau, gyfanswm incwm aelwyd o rhwng £18,000 a £24,000 y flwyddyn ar ôl ystyried budd-daliadau¹.

Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, at ddibenion y polisi hwn, diffinnir incwm net a enillir fel *“incwm aelwyd ar ôl trethi a didyniadau. Nid yw yn cynnwys incwm o'r Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill. Byddai incwm net o enillion gweithiwr cyflogedig ac enillion hunangyflogaeth datganedig yn cael eu hystyried”*².

Mae'r Crynodeb o Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft, a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad, yn nodi hefyd: *“Byddai'r un trothwy'n berthnasol i deuluoedd un oedolyn a dau oedolyn. At ddiben y polisi hwn, diffinnir aelwyd/teulu fel “un neu ddau oedolyn (yn byw gyda'i gilydd fel cwpl) ynghyd â phlant dibynnol maen nhw'n byw gyda nhw”*.³

Roedd rhywfaint o gamddealltwriaeth hefyd ynglŷn ag ystyr yr ymadrodd “diwedd y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol”. Mae hyn yn cyfeirio at yr amser penodol hwnnw pan fydd holl hawlwy'r presennol 'budd-daliadau etifeddol' (h.y. y budd - daliadau a'r credydau treth hynny y mae'r Credyd Cynhwysol yn eu disodli) ledled y DU wedi'u symud i'r Credyd Cynhwysol. Gall amserlen yr Adran Gwaith a Phensiynau newid, ac mae'r amserlen wedi'i diweddarau ddwywaith ers cyhoeddi ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, disgwyliad diweddaraf yr Adran Gwaith a Phensiynau adeg ysgrifennu hyn yw y bydd y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023.

¹ Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru 'Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim' (2018), tudalen 11: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-06/meini-prawf-cymhwysedd-diwygiedig-ar-gyfer-prydau-dogfen-ymgynghori.pdf>

² Gweler troednodyn 9, tudalen 11 o ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru 'Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim' (2018).

³ Datblygu meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim dan y Credyd Cynhwysol - Crynodeb o Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft (RIA) (2018), tudalenau 2-3: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-06/asesiad-effaith-rheoleiddiol-ria.pdf>

Roedd pryder hefyd na fyddai'r trothwy enillion wedi'i gysylltu â chwyddiant, fel nad yw teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn colli eu hawl os yw eu henillion yn codi'n unol â chwyddiant.

Mae'r dadansoddiad y mae ein trothwy wedi'i seilio arno'n cynnwys rhagolygon enillion ac amcanestyniadau'r Cyflog Byw Cenedlaethol, cyfraddau cyflogaeth, a chymhwysedd ar gyfer budd-daliadau. Yn ein dogfen ymgynghori⁴, rydym yn dweud, er mai ein bwriad yw cadw'r trothwy'n gyson hyd at ddiwedd y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, y byddwn yn adolygu'r trothwy, trwy fonitro a yw nifer y disgyblion cymwys yn wahanol iawn i'r hyn yr ydym wedi'i ragamcanu. Os oes amrywiad sylweddol i'n rhagamcanion, efallai y bydd angen newid y trothwy.

Nododd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fod ymatebwyr yn credu y byddai'r trothwy incwm a enillir yn golygu y byddai plant yn colli eu prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw'n fater o Lywodraeth Cymru yn cymryd prydau ysgol am ddim oddi ar blant sy'n eu derbyn ar hyn o bryd. Mae'n ymwneud â chymharu dwy senario bosibl yn y dyfodol - un lle mae pob plentyn mewn teuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r llall lle rydym yn cyflwyno trothwy incwm a enillir o £7,400. Dan y ddwy senario bydd mwy o blant yn derbyn prydau ysgol am ddim nag a fyddai wedi gwneud o'r blaen, o dan y system fudd-daliadau etifeddol. I blant sy'n peidio â bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, bydd trefniadau cynhwysfawr ar waith ar gyfer eu hamddiffyn wrth bontio i'r gyfundrefn newydd. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw blentyn yn colli ei brydau ysgol am ddim yn ystod y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol (ac yna tan ddiwedd eu cyfnod ysgol) oherwydd y trefniadau hyn.

Mae ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd yn dangos, pan a phryd y bydd trothwy'n cael ei gyflwyno, y bydd angen canllawiau cynhwysfawr er mwyn i gwestiynau fel y rhain gael eu hateb yn gyflym ac yn gywir, a hefyd i sicrhau dulliau cyson ledled Cymru.

⁴ Gweler tudalen 12 o ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru 'Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim' (2018).

Yr effaith a chost newidiadau i feini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim

Galwodd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad am:

- arddangos costau'n dryloyw;
- nodi nifer a nodweddion y plant yr effeithir arnynt yn glir; a,
- tystiolaeth bod y goblygiadau i blant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan y cynnig wedi cael eu dadansoddi a'u hystyried.

Law yn llaw â'r papur ymgynghori, cyhoeddwyd crynodeb o'n Hasesiad Effaith Rheoleiddiol drafft (RIA)⁵, a gyflwynodd effeithiau amcangyfrifedig yr opsiynau a ddadansoddwyd ar nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r costau a'r buddion cysylltiedig. Ystyriwyd nodweddion grwpiau o blant/teuluoedd amrywiol hefyd. Mae RIA llawn wedi'i gyhoeddi ers hynny, fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2019⁶. Mae hyn yn rhoi rhagor o fanylion am effeithiau amcangyfrifedig y meini prawf cymhwysedd newydd a'r amddiffyniad wrth bontio i'r drefn newydd. Cyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg⁷, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb⁸ ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant⁹ law yn llaw â'r ymgynghoriad hefyd. Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn nodi'n fanwl sut y rhagwelwyd y gallai'r cynigion effeithio ar blant a theuluoedd o wahanol sectorau yn y gymuned. Ers hynny mae'r asesiadau hyn wedi'u diweddarau a'u cynnwys mewn Asesiad Effaith Integredig, ac mae Adrannau 1 a 7 o'r Asesiad Effaith Integredig yn cael eu cyhoeddi'n unol â gweithdrefn Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith ei bod yn anodd iawn rhagweld yn gywir beth fydd effaith unrhyw drothwy enillion ar faint y garfan prydau ysgol am ddim. Yn y crynodeb o'r RIA drafft a gyhoeddwyd law yn llaw â'n hymgyngoriad, rydym yn pwysleisio bod yna lawer o ansicrwydd ynghylch ein hamcangyfrifon o

⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-06/asesiad-effaith-rheoleiddiol-ria.pdf>

⁶ <http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/sub-ld12133-em/sub-ld12133-em-w.pdf>

⁷ <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-06/asesiad-or-effaith-ar-y-gymraeg-wlia.pdf>

⁸ <https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-06/equality-impact-assessment-eia.pdf>

⁹ <https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-06/childrens-rights-impact-assessment-cria.pdf>

effaith y meini prawf cymhwysedd newydd oherwydd ffactorau megis newid ymddygiad. Hefyd, bydd rhagolygon economaidd (e.e. rhagolygon twf enillion a chyfraddau cyflogaeth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol) a'r data sylfaenol (e.e. amcanestyniadau llwyth achosion y Credyd Cynhwysol a'r Arolwg Adnoddau Teulu) a ddefnyddir yn y modelau ar gyfer y dadansoddiad hwn yn parhau i gael eu diweddarau. Bydd data a rhagolygon newydd yn effeithio ar ein hamcangyfrifon o effaith bosibl y meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac felly, gall ein hamcangyfrifon newid.

Cynyddu nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Thema gyson yn yr ymgynghoriad oedd y dylai Llywodraeth Cymru geisio cynyddu nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Amlygodd hyn ei hun mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:

- honiadau y bydd cynlluniau Llywodraeth Cymru yn golygu na fydd nifer sylweddol o blant sy'n byw mewn tlodi yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim
- galw am i brydau ysgol am ddim fod ar gael i bob plentyn o deuluoedd sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol
- cymhariaeth negyddol gyda darpariaeth prydau ysgol am ddim mewn gwledydd eraill (yn enwedig yng Ngogledd Iwerddon lle mae'r trothwy incwm a enillir o £14,000 wedi'i fabwysiadu)
- galw am i brydau ysgol am ddim fod ar gael yn gyffredinol i bob disgybl

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer meini prawf cymhwysedd diwygiedig yn golygu y byddai nifer sylweddol o blant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn parhau'n anghymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae Cymdeithas y Plant wedi amcangyfrif bod tua 55,000 o blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi ac nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. Maent yn amcangyfrif y bydd mwyafrif helaeth y plant hyn yn parhau i golli'r cyfle yn dilyn cyflwyno trothwy enillion o £7,400. Nid yw dadansoddiad Cymdeithas y Plant yn cynnwys gwybodaeth am y ffynonellau data a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Felly, nid ydym wedi gallu gwirio'r cyfrifiadau hyn.

Cynhyrchir ystadegau swyddogol ar dlodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac fe'u ceir o'r gyfres Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, yn seiliedig yn bennaf ar ddata'r Arolwg o Adnoddau Teulu (FRS). Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau'n cyhoeddi data ar niferoedd mewn tlodi yn ôl lefel enillion. Mae nifer o resymau pam mae'n anodd cymharu data enillion blynyddol a thlodi. Mae cyfrifiadau o dlodi'n seiliedig ar gyfanswm incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell (gan gynnwys enillion), ac mae ffynonellau incwm a adroddir drwy'r arolwg i gyd yn cael eu trosi'n symiau wythnosol. Er mwyn mesur tlodi, mae incwm aelwyd yn cael ei wneud yn gyfatebol hefyd er mwyn addasu ar gyfer cyfansoddiad aelwydydd, hynny yw, nifer aelodau'r aelwyd a'u hoedran. Yn ogystal, nifer cymharol fach o aelwydydd yng Nghymru sy'n cael eu samplu yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu bob blwyddyn, sy'n golygu y gall unrhyw amcangyfrifon sy'n seiliedig ar y data hwn fod yn gyfnewidiol ac yn amodol ar gyfyngau hyder mawr.

Roedd nifer o ymatebwyr yn galw am i brydau ysgol am ddim fod ar gael i bob hawlydd Credyd Cynhwysol, fel ar hyn o bryd. Cafodd pob teulu sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol hawl i brydau ysgol am ddim ym mis Medi 2013, pan basiwyd Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013. Fodd bynnag, rydym wedi'i gwneud yn glir o'r cychwyn ¹⁰ mai'r bwriad bob amser oedd i hyn fod yn fesur dros dro i sicrhau nad oedd teuluoedd a allai fod wedi gallu hawlio prydau ysgol am ddim o'r blaen ar eu colled, tra'n disgwyl i feini prawf cymhwysedd newydd gael eu datblygu i adlewyrchu'r broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn ehangach. Felly nid yw cyflwyno trothwy incwm a enillir yn gwrthdroi polisi Llywodraeth Cymru.

Mae ymestyn cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn teuluoedd sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol yn mynd y tu hwnt i'r nod o ddarparu prydau ysgol am ddim i blant ar yr aelwydydd incwm isaf. Mewn rhai amgylchiadau,

¹⁰ Datganiad Ysgrifenedig - Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth Am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) – 16 Awst 2013:
<https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2013/freeschoollunch/?lang=cy>

gall teuluoedd ar y Credyd Cynhwysol ennill dros £40,000 a pharhau i dderbyn swm bychan o Gredyd Cynhwysol ¹¹.

Os na chyflwynir unrhyw drothwy, rydym yn amcangyfrif erbyn i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn yn 2023, y byddai tua hanner yr holl ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (o gymharu ag 16 y cant ym mis Ionawr 2018). Nid oes unrhyw arian ychwanegol wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru i reoli effaith agenda Diwygio Lles Llywodraeth y DU ar brydau ysgol am ddim, ac ni fyddai cynnydd mor sylweddol yn nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fforddiadwy. O ganlyniad i ymrwymo i gynnydd o'r fath, byddai'n rhaid gwneud arbedion mewn mannau eraill.

Gan na allwn fforddio darparu prydau ysgol am ddim i bob teulu sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol, a chan fod hyn yn mynd yn groes i'n nod polisi o gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen, bydd yn rhaid i ni gyflwyno trothwy enillion. Bydd rhaid talu am ba bynnag drothwy a gyflwynwn o'r cyllidebau presennol.

Mae rhai teuluoedd sy'n gweithio'n gallu hawlio'r Credyd Cynhwysol, gan gynnwys y rhai a fyddai wedi cael Credyd Treth Gwaith o dan y system fudd-daliadau etifeddol (ac felly'n anghymwys i gael prydau ysgol am ddim). Dan gynlluniau Llywodraeth Cymru, ar yr amod nad yw eu hincwm net blyneddol a enillir yn fwy na £7,400, bydd ganddynt hawl i hawlio prydau ysgol am ddim i'w plant. Fodd bynnag, yn ystod yr ymgynghoriad, gwnaed y pwynt na fydd hyn yn helpu teuluoedd sy'n gweithio sydd ar incwm isel nad ydynt yn derbyn budd-daliadau, yn enwedig y rhai y tybiai ymatebwyr eu bod yn waeth eu byd yn ariannol na'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau. Fodd bynnag, mae cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn seiliedig ar dderbyn budd-daliadau a thaliadau cymorth penodol, felly roedd y mater hwn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, byddai ymestyn yr hawl i deuluoedd sy'n gweithio nad ydynt yn hawlwr budd-daliadau bron yn sicr o gynyddu'r niferoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i lefel na allem ei fforddio.

¹¹ Yr Adran Addysg, 'Eligibility for free school meals, the early years pupil premium and the free early education entitlement for two-year-olds under Universal Credit: Government consultation response' (Mawrth 2018): https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/692644/Government_response_FSM_and_EY_entitlements_under_Universal_Credit.pdf

Soniwyd hefyd am sefyllfa plant mewn teuluoedd â statws mewnfudo heb ei ddatrys a'u hanallu i hawlio prydau ysgol am ddim. Roedd hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad penodol hwn, ond, dylid nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i newid y meini prawf cymhwysedd ar gyfer plant y mae eu rhieni'n cael cymorth a ddarperir o dan Ran 6 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.

Cymharu'r trothwy gyda'r trothwyon a gyflwynwyd yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill

Mae defnyddio trothwy incwm net a enillir yn gyson â'r dull a ddefnyddir yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill. Ym mis Awst 2017, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban drothwy incwm net a enillir o £610 y mis (sy'n cyfateb i £7,320 y flwyddyn) ac ym mis Ebrill 2018, cyflwynodd yr Adran Addysg yn Lloegr drothwy enillion net o £7,400 y flwyddyn i asesu cymhwysedd aelwydydd i gael prydau ysgol am ddim o dan y Credyd Cynhwysol (law yn llaw â mesurau amddiffyn wrth bontio).

Awgrymwyd petai trothwy incwm a enillir yn cael ei gyflwyno, y dylai fod yn fwy na £7,400. Yn benodol, roedd galw am gyflwyno trothwy sy'n cyfateb i'r trothwy incwm a enillir o £14,000 a gyflwynwyd yng Ngogledd Iwerddon.

Fel yr ydym wedi dweud eisoes, ein blaenoriaeth yw sicrhau bod y rhai mwyaf anghenus yn cael ffordd o gael prydau ysgol am ddim, ond, rhaid i ni sicrhau hefyd y gellir cwrdd ag unrhyw ymrwymiad ariannol a wnawn o fewn y cyllidebau presennol. Po uchaf yw'r trothwy rydym yn ei weithredu, y mwyaf yw'r nifer disgyblion a fydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a pho uchaf fydd y gost.

Pe baem yn cyflwyno trothwy incwm net blynyddol a enillir o £14,000, unwaith y caiff y Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n llawn, byddem yn disgwyl i'r garfan prydau ysgol am ddim gymwys (ac felly'r costau blynyddol, heb gynnwys yr amddiffyniad wrth bontio i'r drefn newydd) fod tua dwywaith maint y rhai dan drothwy o £7,400.

Nid yw cymharu'r meini prawf ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Ngogledd Iwerddon a Chymru yn cymharu tebyg at ei debyg. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu Cymru a

Gogledd Iwerddon. O dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, mae nawdd cymdeithasol, pensiynau a chymorth plant wedi'u datganoli i Ogledd Iwerddon. Hyd yn oed cyn cyflwyno trothwy incwm net a enillir o £14,000, roedd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn wahanol i'r meini prawf yng Nghymru.

Roedd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn galw am brydau ysgol am ddim cyffredinol, ar gyfer pob plentyn. Fodd bynnag, mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r nod o ddarparu prydau ysgol am ddim i blant yn yr aelwydydd incwm isaf, a byddai'n fwy costus fyth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried goblygiadau hirdymor ei weithredoedd. Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd darparu prydau ysgol am ddim i blant o gefndiroedd difreintiedig yn cael effaith fuddiol bosibl ar eu maeth ac felly eu lefelau iechyd a chyrhaeddiad addysgol. Dadleuwyd y dylid ystyried cyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim fel gwariant ataliol oherwydd y bydd yn helpu i wella canlyniadau maeth ac iechyd i blant o gefndiroedd difreintiedig. Mewn gwirionedd, mae hyn wedi bod yn ystyriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru a'n blaenoriaeth yw sicrhau y dylai'r rhai sydd fwyaf mewn angen fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Ein hamcangyfrif canolog ar y cyfan yw y bydd trothwy enillion net blynyddol o £7,400 yn golygu cynnydd o ryw 3,000 yn nifer y plant sy'n elwa ar brydau ysgol am ddim yng Nghymru erbyn i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn yn 2023-24. Mae hyn yn cynrychioli'r newid net amcangyfrifedig ym maint y garfan oherwydd y meini prawf cymhwysedd newydd a gynigir. Mae'n gymharol â'r nifer amcangyfrifedig o blant a fyddai wedi cael prydau ysgol am ddim o dan y system fudd-daliadau y mae'r Credyd Cynhwysol yn ei disodli, ac mae'n eithrio effaith amddiffyn wrth bontio i'r gyfundrefn newydd. Rydym yn amcangyfrif y bydd cyfanswm y plant sy'n derbyn amddiffyniad wrth bontio mewn unrhyw flwyddyn benodol yn ystod cyfnod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn y degau o filoedd. Er mwyn cwrdd â chost yr ymrwymadau

hyn, rydym yn neilltuo £7 miliwn ychwanegol ar gyfer prydau ysgol am ddim drwy'r Setliad Llywodraeth Leol yn 2019-20. Rydym yn darparu cyllid ychwanegol o £5 miliwn i awdurdodau lleol yn 2018-19 hefyd, fel grant penodol i awdurdodau lleol.

Gofyniad cyfreithiol i rieni wneud cais am bryd ysgol am ddim

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y gofyniad cyfreithiol presennol i rieni wneud cais am bryd ysgol am ddim cyn ennill cymhwysedd yn golygu nad yw rhai'n gwneud hawliad yn y pen draw. Nodwyd bod hyn, ynghyd â'r ffaith nad yw rhai rhieni'n ymwybodol y gallant hawlio, yn arwain at blant yn colli'r cyfle. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cyflwyno system gofrestru awtomatig ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er ein bod am sicrhau bod cynifer o blant cymwys â phosibl yn hawlio prydau ysgol am ddim, mae anawsterau ymarferol yn gysylltiedig â hyn, yn enwedig o ran nodi teuluoedd sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ond sydd heb wneud cais am brydau ysgol am ddim, ac mae hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, efallai bod lle i ddefnyddio'r system gwirio cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim (gweler tudalen 13) ar gyfer cofrestru awtomatig. Yn Lloegr, mae'r Adran Addysg wedi dweud¹² eu bod yn archwilio pa gyfleoedd a allai fodoli yn y tymor hirach i wneud y prosesau cofrestru'n fwy effeithlon. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod â'u cymheiriaid yn yr Adran Addysg i fonitro datblygiadau yn Lloegr yn ymwneud â'r system gwirio cymhwysedd, ac ystyried a ellid eu cymhwyso yng Nghymru.

Cyflwyno trothwyon enillion lluosog neu raddfa symudol

Awgrymodd rhai ymatebwyr bod trothwy unigol yn amhriodol ac y dylid cyflwyno trothwy newidiol neu raddfa symudol:

- Mae trothwy unigol yn creu "ymyl clogwyn" sy'n groes i ethos y Credyd Cynhwysol
- Mae'n trin teuluoedd â mwy nag un plentyn neu'r rhai sy'n wynebu pwysau ariannol ychwanegol megis dyled, yn annheg.

¹² Eligibility for free school meals, the early years pupil premium and the free early education entitlement for two-year-olds under Universal Credit, ymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth, Yr Adran Addysg (Mawrth 2018): https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/692644/Government_response_FSM_and_EY_entitlements_under_Universal_Credit.pdf

Roedd rhai'n ystyried bod trothwy sengl yn tanseilio egwyddorion sylfaenol y Credyd Cynhwysol sy'n ceisio gwneud i waith dalu ac annog hawlwr i symud ymlaen ym myd gwaith. Awgrymwyd bod hyn yn creu cymhelliant gwrthnysig lle gallai teuluoedd ag enillion oedd yn agos at y trothwy o £7,400 fod yn well eu byd yn ariannol pe na baent yn cynyddu eu henillion ac felly'n cadw eu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Teimlwyd bod graddfa symudol yn fwy cydnaws ag ethos y Credyd Cynhwysol.

Ni fydd hyn yn effeithio ar y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd trwy gydol cyfnod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (ac yna tan ddiwedd y cyfnod ysgol) gan y bydd aelwydydd ag incwm sy'n cynyddu uwchlaw'r trothwy prydau ysgol am ddim yn cadw cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim trwy gydol y cyfnod hwn oherwydd ein mesurau amddiffyn wrth bontio.

Yn y tymor hirach, ystyriwn mai trothwy yw'r opsiwn mwyaf ymarferol a chilir i ysgolion ac awdurdodau lleol ei weithredu. Byddai graddfa symudol neu dapr yn ychwanegu cymhlethdod i'r system ac yn cynyddu'r baich gweinyddol ar ysgolion ac awdurdodau lleol yn sylweddol. Po fwyaf cymhleth yw'r system, y mwyaf yw'r risg o wallau, sy'n cynyddu'r risg y bydd plant cymwys yn colli'r cyfle i gael eu prydau ysgol am ddim.

Fel yr eglurodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS)¹³ cafwyd 'ymyl clogwyn' dan y meini prawf pasbortio i gael prydau ysgol am ddim o dan y system etifeddiaeth. Mae'n digwydd hefyd dan y trefniadau dros dro lle mae pawb sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim - dim ond symud ymyl y clogwyn ymhellach i fyny'r dosbarthiad incwm yw hynny yn hytrach na chael gwared arno. Dywed yr IFS **nad mater syml fyddai osgoi ymyl clogwyn o'r fath o dan unrhyw system o gynnal prawf modd ar gyfer prydau ysgol am ddim.**

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod trothwy sengl yn annheg i deuluoedd mwy oherwydd byddai eu gwariant yn uwch yn naturiol na theuluoedd â dim ond un plentyn. Cafwyd awgrym hefyd y dylid cynyddu'r trothwy ar gyfer teuluoedd â lefelau

¹³ Free school meals under universal credit, Nodyn briffio IFS BN232: <https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/bns/BN232.pdf>

uwch o ymrwymiad ariannol megis ad-dalu dyledion. Awgrymwyd y gallai nifer o drothwyon gael eu sefydlu a fyddai'n cynyddu'n unol â nifer y plant mewn teulu neu alldaliadau teulu. Fodd bynnag, gellid ystyried trothwy sy'n cael ei addasu yn ôl lefel dyled teulu i gyflwyno cymhelliant gwrthnysig.

Awgrymwyd hefyd y gellid ystyried cyflwyno trothwy enillion yn wahaniaethol yn achos grwpiau crefyddol neu ethnig lle mae teuluoedd mwy yn fwy cyffredin. Nododd ymatebydd, yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 60 y cant o blant Mwslimaidd a 52 y cant o blant Iddewig yn byw mewn teuluoedd â 3 neu fwy o blant dibynnol, ond 29 y cant oedd y ffigur cymharol ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn grefyddol.

Dylid nodi hefyd, fodd bynnag, bod yr un cyfrifiad yn cofnodi bod 66 y cant o Fwslimiaid yn byw yn yr hanner mwyaf difreintiedig o Gymru ac mai nhw yw'r grŵp crefyddol gyda'r cyfrannau uchaf o bobl sydd yn y categorïau "heb weithio erioed a di-waith hirdymor". Felly byddem yn disgwyl i'r grŵp hwn fod yn fwy tebygol o fod heb unrhyw enillion neu enillion isel ac felly'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â grwpiau crefyddol eraill. Roedd gan y boblogaeth Iddewig y gyfran uchaf o bobl yn gyffredinol yn y 50 y cant o ardaloedd lleiaf difreintiedig a gellid tybio eu bod yn llai tebygol felly o hawlio prydau ysgol am ddim na grwpiau crefyddol eraill.¹⁴

Enillion sy'n amrywio ac isafswm llawr incwm

Roedd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn pryderu am hawlwyd sy'n derbyn tâl wythnosol neu bedair wythnos a'r rhai y mae eu henillion yn amrywio (ac os felly gall roi'r argraff bod incwm net unigolyn a enillir yn fwy na £7,400 pan nad yw mewn gwirionedd). Roedd pryderon y gallai hyn arwain at sefyllfa yn y pen draw lle'r oedd gan blant hawl i brydau ysgol am ddim un mis a dim hawl y mis canlynol. Y pryder oedd y byddai hyn yn ei dro yn arwain at system a fyddai'n rhoi baich gweinyddol sylweddol ar awdurdodau lleol.

Mae ein cynnig i amddiffyn wrth bontio yn golygu, unwaith y nodir bod plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y byddant yn parhau i fod yn gymwys tan ddiwedd y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol ym mis Rhagfyr 2023, ac wedi

¹⁴ Ffocws ystadegol ar Grefydd yng Nghymru, Cyfrifiad 2011: <http://gov.wales/docs/statistics/2015/151027-statistical-focus-religion-2011-census-en.pdf>

hynny hyd at ddiwedd eu cyfnod ysgol¹⁵. Ar gyfer hawlwyr newydd, bydd enillion ceisydd yn cael eu gwirio am uchafswm o dri o gyfnodau asesu'r Credyd Cynhwysol.

Mae'r Adran Addysg yn Lloegr yn rhedeg y system gwirio cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac mae Llywodraeth Cymru yn talu i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddefnyddio'r system hon i'w galluogi i wirio cymhwysedd ar-lein. Mae'r system gwirio cymhwysedd yn cymryd data a gedwir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa Gartref a Chyllid a Thollau EM er mwyn sefydlu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae'r system yn caniatáu i gymhwysedd hawlydd gael ei wirio gan ddefnyddio enw'r rhiant, dyddiad geni a rhif yswiriant gwladol y rhiant, yn hytrach na bod yn rhaid i'r hawlydd ddarparu prawf papur o fudd-daliadau. Mae newidiadau technegol yn cael eu gwneud i'r system gwirio cymhwysedd fel y bydd yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i wirio enillion dros dri o gyfnodau asesu'r Credyd Cynhwysol o 1 Ebrill 2019 ymlaen, fel a ganlyn:

- Yn y lle cyntaf, bydd yr hawlydd yn cael ei wirio ar gyfer incwm misol a enillir nad yw'n fwy na £616.67 (un rhan o ddeuddeg o incwm blynyddol cyfwerth o £7,400) yn y cyfnod asesu Credyd Cynhwysol diweddaraf;
- Os yw'r incwm a enillir yn uwch na £616.67 am y cyfnod asesu Credyd Cynhwysol mwyaf diweddar, bydd yr hawlydd yn cael ei wirio ar gyfer incwm a enillir nad yw'n fwy na £1,233.34 (un rhan o chwech o incwm blynyddol cyfwerth o £7,400) yn y ddau gyfnod asesu Credyd Cynhwysol diweddaraf, ar yr amod bod yna ddau gyfnod asesu o'r fath;
- Os yw'r incwm a enillir yn fwy na £1,233.34 ar gyfer y ddau gyfnod asesu Credyd Cynhwysol diweddaraf, bydd yr hawlydd yn cael ei wirio ar gyfer incwm a enillir nad yw'n fwy na £1,850 (chwarter incwm blynyddol cyfwerth o £7,400) yn y tri chyfnod asesu Credyd Cynhwysol diweddaraf, ar yr amod bod yna dri chyfnod asesu o'r fath.

Ar gyfer derbynyddion presennol sy'n gymwys ar yr adeg y cyflwynir y trothwy, a'r rhai sy'n dod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod cyflwyno'r

¹⁵ Ni fydd amddiffyniad wrth bontio yn cael ei ymestyn i gynnwys hawlwyr sydd ddim yn derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol, ac sydd felly ddim yn cael eu heffeithio gan y newidiadau i feini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Credyd Cynhwysol, ni ddylai enillion anwadal fod yn broblem, gan y bydd ein hamddiffyniad wrth bontio i'r gyfundrefn newydd yn ystod y cyfnod cyflwyno'n golygu na fydd plant o'r teuluoedd hyn yn colli cymhwysedd. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi caffael cefnogaeth rheoli newid i awdurdodau lleol i'w helpu i ddiweddarau eu prosesau a'u systemau er mwyn cefnogi cyflwyno'r trothwy incwm a enillir a'r cynnig i amddiffyn wrth bontio. Yn y cyfnod cyn i'r trothwy gael ei gyflwyno ar 1 Ebrill 2019, mae awdurdodau lleol yn derbyn canllawiau manwl sy'n egluro sut y dylid prosesu hawliadau ac yn tynnu sylw at beryglon prosesu posibl. Nod yr arweiniad hwn yw sicrhau nad oes unrhyw hawlydd prydau ysgol am ddim dan anfantais oherwydd y ffordd y telir eu cyflogau.

Mynegwyd pryderon ynghylch y ffordd y caiff hawl wyr hunangyflogedig eu trin, ac a fyddai isafswm llawr incwm yn cael ei gyflwyno¹⁶. Dan y drefn newydd bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio incwm datganedig a enillir i asesu cymhwysedd hawl wyr hunangyflogedig ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Effaith ar feysydd polisi eraill (yn enwedig y Grant Datblygu Disgyblion)

Mae Llywodraeth Cymru yn arbennig o ymwybodol o'r effaith y bydd newidiadau yn niferoedd y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ei chael ar feysydd polisi eraill ac roedd hwn yn fater a godwyd gan rai o ymatebwyr yr ymgynghoriad hefyd.

Roedd pryder arbennig ynghylch yr effaith y byddai cyflwyno trothwy enillion yn ei chael ar y Grant Datblygu Disgyblion (PDG). Bydd unrhyw newid yn y diffiniad o blant sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cael ei adlewyrchu mewn cynnydd neu ostyngiad cyfatebol yn swm y PDG y gallai ysgol ei dderbyn. Rydym wedi pennu swm y PDG sy'n daladwy yn 2019/20. Roedd y newid posibl yn y niferoedd sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn rhan bwysig o'r rhesymeg sy'n sail i'r penderfyniad hwn.

¹⁶ Mae isafswm llawr incwm yn lefel ragdybiedig o enillion a ddefnyddir i gyfrifo dyfarniad Credyd Cynhwysol ar gyfer hawlydd sydd wedi bod yn hunangyflogedig am 12 mis neu fwy. Pan fydd unigolyn sydd wedi bod yn hunangyflogedig am 12 mis neu fwy'n gwneud cais am y Credyd Cynhwysol, cyfrifir isafswm llawr incwm ar ei gyfer. Mae'r isafswm llawr incwm yn seiliedig ar yr hyn y byddai'r Adran Gwaith a Phensiynau'n disgwyl i berson cyflogedig ei dderbyn mewn amgylchiadau tebyg.

Mae cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn gymhwysedd ar gyfer talu'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad hefyd. Grant o hyd at £125 yw hwn i helpu i dalu am wisg ysgol, cit chwaraeon a chit ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol fel sgowntiaid a geidiaid. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai colli cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ergyd ddwbl i rieni a fyddai'n colli eu Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad hefyd.

Fel y dywedwyd eisoes, ni fydd y mwyafrif helaeth o deuluoedd yn gweld unrhyw newid yn eu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Felly bydd y teuluoedd hyn yn dal i allu hawlio'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad. Hefyd, ein hamcangyfrif canolog yw y bydd trothwy enillion net blynyddol o £7,400 yn golygu y bydd tua 3,000 yn rhagor o blant yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru erbyn yr amser y bydd y Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn yn 2023-24. Bydd y disgyblion hyn yn gymwys i hawlio'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad hefyd.

Mynegwyd pryderon hefyd am effaith cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd amddifadedd ar gyfer grant cymorth refeniw'r awdurdod lleol, yn enwedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol yng nghamau diweddarach cyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol, trwy'r Is-grŵp Dosbarthu¹⁷, sy'n cynghori ar fformiwla'r Setliad Llywodraeth Leol, i reoli unrhyw effaith ddosbarthiadol. Mae dosbarthu arian ychwanegol ar gyfer prydau ysgol am ddim ac amddiffyniad wrth bontio wedi'i ystyried gan yr Is-grŵp Dosbarthu hefyd.

Defnyddir cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim fel dangosydd procsi ar gyfer amddifadedd mewn mannau eraill hefyd a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad y gallai'r newid yn y meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim arwain at fethiant i asesu effaith tlodi ac amddifadedd yn gywir a chyflwyno darpariaethau amhriodol ar gyfer cymorth. Teimlwyd bod angen cyflwyno trefniadau diogelu er mwyn sicrhau na chaiff y rheini o'r cefndiroedd mwyaf tlawd eu heffeithio'n annheg.

¹⁷ <https://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/dsg1/?lang=cy>

Ar hyn o bryd rydym yn mesur cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ac yn defnyddio hynny i'n helpu i fonitro'r cynnydd a wneir wrth leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig a'r rhai nad ydynt. Gallai newid y diffiniad o blant sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim gael effaith ar ein gallu i fonitro cynnydd a wneir wrth leihau'r bwlch cyrhaeddiad. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyhoeddi data ar gyrhaeddiad disgyblion dan anfantais. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen i ni ystyried cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim hefyd o ganlyniad i newidiadau mewn cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Am y rheswm hwn rydym yn gofyn i awdurdodau lleol ac ysgolion gadw cofnodion cywir o ddisgyblion a amddiffynnir yn drosiannol. Bydd hyn yn ein galluogi i wahaniaethu rhwng disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n gallu parhau i dderbyn prydau ysgol am ddim oherwydd eu bod yn cael eu hamddiffyn yn drosiannol. Bydd gwybodaeth am amddiffyniad wrth bontio i'r gyfundrefn newydd yn cael ei chynnwys yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion o fis Ionawr 2020 ymlaen.

Amddiffyn Wrth Bontio

Gofynnodd yr ymgynghoriad yn benodol i ymatebwyr wneud sylwadau ar ein cynlluniau ar gyfer amddiffyn wrth bontio i'r gyfundrefn newydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y bydd amddiffyn wrth bontio yn cyflwyno system anghyfartal lle bydd dau deulu yn yr un amgylchiadau gyda'r un enillion mewn sefyllfa lle mae un yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a'r llall ddim yn gymwys. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod y cyfnod pontio yn rhy hir ac y dylid ei gyfyngu tan ddiwedd y flwyddyn ysgol y collwyd cymhwysedd ynddi neu y dylid adolygu cymhwysedd y rhai a amddiffynnwyd yn flynyddol i asesu a ydynt ei angen o hyd. Roedd rhai'n teimlo hefyd fod yna rai categorïau (e.e. teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddiaeth ac mae eu hamgylchiadau'n newid, gan eu tynnu allan o'r system budd-daliadau'n gyfan gwbl) y dylid eu heithrio o'r cynnig i amddiffyn wrth bontio.

Rydym yn cydnabod y gallai colli cymhwysedd prydau ysgol am ddim yn sydyn oherwydd newid mewn polisi fod yn newid sylweddol i lawer o deuluoedd agored i

niwed, a nod Llywodraeth Cymru, drwy gyflwyno amddiffyniad wrth bontio, yw eu hamddiffyn rhag effaith y newid mewn meini prawf cymhwysedd drwy roi amser iddynt addasu. Rydym yn deall y bydd anghysondebau, gyda rhai teuluoedd yn gallu hawlio ac eraill, yn yr un amgylchiadau fwy na heb, na fyddant yn gallu gwneud hynny, ond bydd hyn yn digwydd pa bynnag system o amddiffyn wrth bontio rydym yn ei chyflwyno.

Rydym am wneud y system mor syml â phosibl hefyd fel y gall aelodau'r cyhoedd ei deall yn hawdd yn ogystal â'r ysgolion a'r awdurdodau lleol y bydd angen iddynt ei gweinyddu. Rydym am osgoi rhoi baich gweinyddol anhydrin ar ysgolion ac awdurdodau lleol, gan y byddai hyn yn cynyddu'r risg o blant cymwys yn colli'r cyfle i gael prydau ysgol am ddim.

Roedd yna gamagraffiadau am y ffordd y bydd amddiffyn wrth bontio yn gweithio hefyd. Roedd pryderon y byddai un pwynt terfyn ar gyfer pob teulu ar ddyddiad cwblhau'r broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Mewn gwirionedd, bydd unrhyw blentyn y mae ei gymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cael ei amddiffyn ar y pwynt hwnnw yn cael ei gymhwysedd wedi'i amddiffyn nes iddo gyrraedd diwedd ei gyfnod ysgol presennol (h.y. nes iddo orffen mewn ysgol gynradd neu ysgol uwchradd).

Yn Lloegr, mae ysgolion yn derbyn arian "Premiwm Disgybl" i gefnogi dysgu disgyblion. Darperir y grant Premiwm Disgybl ar gyfer pob disgybl sydd wedi'i gofrestru fel un sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Y model ariannu Ever 6 yw hwn. Awgrymwyd y dylid mabwysiadu'r model hwn yng Nghymru ar gyfer cymhwysedd prydau ysgol am ddim fel bod disgyblion yn parhau i allu derbyn prydau ysgol am ddim am chwe blynedd ar ôl i'w cymhwysedd ddod i ben.

O dan ein cynnig i amddiffyn wrth bontio i'r gyfundrefn newydd, efallai y bydd rhai plant yn cael eu hamddiffyn am gyfnod o'r fath neu gyfnod hirach, oherwydd bydd amddiffyniad wrth bontio yn parhau tan ddiwedd y cyfnod ysgol (cynradd neu uwchradd) ar ôl cwblhau'r gwaith o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol ym mis Rhagfyr 2023.

Effaith y cynigion ar awdurdodau lleol

Nodwyd y gallai cyflwyno'r trothwy incwm a enillir ar gyfer prydau ysgol am ddim ac amddiffyniad wrth bontio roi baich gweinyddol sylweddol ar awdurdodau lleol.

Nodwyd y byddai'r newidiadau'n golygu y byddai angen newidiadau i systemau rheoli gwybodaeth awdurdodau lleol. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at amgylchiadau penodol (megis y cyfnod aros pum wythnos cyn talu'r Credyd Cynhwysol) a thynnu sylw at yr angen am arweiniad manwl gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn cydnabod y bydd y newidiadau'n cynyddu'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol a'n nod yw lleihau hyn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddwyd fel rhan o Femorandwm Esboniadol Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2019¹⁸, wedi edrych yn fanylach ar yr effaith ar brosesau gweinyddol awdurdodau lleol. Roedd yr adborth o'r ymgynghoriad yn ei gwneud yn glir bod gwaith i'w wneud i baratoi awdurdodau lleol ar gyfer y newid yn y meini prawf cymhwysedd a'r cynnig i amddiffyn wrth bontio. Dyma pam y gohiriwyd cyflwyno'r trothwy incwm a enillir o 1 Ionawr 2019 i 1 Ebrill 2019, er mwyn sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o amser i baratoi ar gyfer y newidiadau, a'u bod yn derbyn cymorth rheoli newid priodol.

Fel y dywedir yn y ddogfen hon drwyddi draw, ein nod oedd gwneud y system ddiwygiedig mor syml â phosibl er mwyn i aelodau'r cyhoedd, ysgolion ac awdurdodau lleol ei deall yn rhwydd ac er mwyn lleihau'r baich gweinyddol y bydd yn ei greu hefyd. Bydd system symlach yn lleihau'r newidiadau y mae angen i awdurdodau lleol eu gwneud i'w systemau rheoli gwybodaeth hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu newidiadau i system gwirio cymhwysedd yr Adran Addysg yn Lloegr fel bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu parhau i'w defnyddio i wirio hawliadau ar gyfer prydau ysgol am ddim ac mae wedi sefydlu rhaglen o gymorth rheoli newid wedi'i deilwra i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu trosglwyddo i ddefnyddio'r system newydd mor ddiraffferth â phosibl.

¹⁸ <http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/sub-ld12133-em/sub-ld12133-em-w.pdf>

Mae rhanddeiliaid wedi nodi nifer o faterion ymarferol allweddol sydd angen eu hegluro. Maent yn cynnwys:

- sut y dylid ymdrin â hawliadau ar gyfer prydau ysgol am ddim a wneir yn ystod cyfnod aros pum wythnos hawlydd Credyd Cynhwysol;
- beth fydd yn digwydd pan fydd plant ag amddiffyniad wrth bontio yn symud dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr?

Cyn cyflwyno'r trothwy incwm a enillir ar 1 Ebrill 2019, bydd y tîm rheoli newid yn ymdrin â'r materion hyn a materion eraill a godwyd gan rhanddeiliaid, a chefnogir y gwaith hwn gan ganllawiau ysgrifenedig.

Y Gymraeg

Y thema fwyaf rheolaidd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gwestiynau ar y Gymraeg oedd na allai'r ymatebwyr weld perthnasedd y cwestiwn, gan y byddai dysgwyr Saesneg a Chymraeg eu hiaith yn cael eu heffeithio i'r un graddau gan y newid ym meini prawf cymhwysedd prydau ysgol am ddim.

Awgrymodd ymatebwyr eraill y gallai fod effaith ar gyrhaeddiad addysgol, gan na fyddai plant llwglyd yn gallu ymgysylltu â'r Gymraeg, na phynciau eraill o ran hynny.

Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yng Nghymru yn cael ei ohirio yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf tan ddiwedd yr amserlen gyflwyno (ar gyfer hawliadau newydd a'r rhai ar fudd-daliadau etifeddol sydd â newid yn eu hamgylchiadau¹⁹), fel y byddai teuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd lle siaredir y Gymraeg yn bennaf yn llai tebygol o elwa ar amddiffyniad wrth bontio i'r gyfundrefn newydd.

Mae cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yng Nghymru, mewn perthynas â hawlwr newydd (neu hawliadau gan bobl ar fudd-daliadau etifeddol y mae eu hamgylchiadau wedi newid), wedi bod yn ddiweddarach yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn, y bröydd gwledig Cymraeg. Fodd bynnag, os edrychwn ni ar niferoedd

¹⁹ Bydd mudo rheoledig llawn hawlwr budd-daliadau etifeddol nad oes ganddynt newid yn eu hamgylchiadau yn digwydd rhwng Tachwedd 2020 a Rhagfyr 2023.

gwirioneddol yn hytrach na chanrannau siaradwyr Cymraeg, yr ardaloedd gyda'r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg 5-15 oed yn y cyfrifiad diwethaf²⁰ oedd:

- Sir Gaerfyrddin - 13,618
- Gwynedd - 13,038
- Caerdydd - 11,835

Tra bo'r Credyd Cynhwysol wedi cael ei gyflwyno yn Sir Gaerfyrddin ym mis Rhagfyr 2018, ac ar draws Gwynedd ym mis Hydref a mis Rhagfyr 2018, cyflwynwyd y Credyd Cynhwysol yng Nghaerdydd ym mis Chwefror 2018.

At hynny, mae data cyfrifiad ysgolion ar gyfer 2018 yn dangos bod canran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (mae 10.5% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 15.7%). Ymddengys fod hyn yn dangos bod siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol o fod yn derbyn prydau ysgol am ddim, ac felly'n llai tebygol, fel poblogaeth ysgol, o gael eu heffeithio gan y newidiadau.

Ni fydd yr adeg y cafodd y Credyd Cynhwysol ei gyflwyno mewn ardaloedd awdurdodau lleol yn cael unrhyw effaith ar hyd yr amddiffyniad wrth bontio ar gyfer prydau ysgol am ddim. Cwblhawyd yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Credyd Cynhwysol i hawlwr newydd (a'r rhai sydd ar fudd-daliadau etifeddol sydd â newid yn eu hamgylchiadau) yng Nghymru erbyn mis Rhagfyr 2018 a bydd yr amddiffyniad wrth bontio ar gyfer prydau ysgol am ddim ar waith ledled Cymru ar ôl cyflwyno'r trothwy incwm a enillir ym mis Ebrill 2019, hyd at ddiwedd cyfnod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn llawn (ym mis Rhagfyr 2023) ac wedi hynny hyd at ddiwedd y cyfnod ysgol. Nid yw mudo rheoledig y rheini sydd ar fudd-daliadau etifeddol, nad yw eu hamgylchiadau wedi newid, wedi dechrau eto ac nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi amserlen fanwl ar gyfer hyn hyd yma.

Pwysleisiodd ymatebwyr eraill ei bod yn hanfodol i brydau ysgol am ddim gael eu hyrwyddo i siaradwyr Cymraeg, yn enwedig gan fod cymunedau â dwysedd uchel o

²⁰ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/welshspeakers-by-la-broaderage-2001and2011census>

siaradwyr Cymraeg gyda chyflogau cyfartalog ymysg yr isaf yn y DU. Mae hyn yn cysylltu â gwaith ymchwil²¹ gan Brifysgol Bangor, sy'n awgrymu bod penaethiaid yn credu bod rhieni mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o beidio manteisio ar brydau ysgol am ddim oherwydd 'balchder gwledig'. Byddai hyn yn effeithio ar ardaloedd gwledig yn y bröydd Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth a chael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim yr un fath â'r meini prawf cymhwysedd y mae'r polisi dan sylw'n canolbwyntio arnynt.

O ystyried y ffactorau hyn, nid yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r honiad y bydd y newidiadau i'r cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cael effaith fwy neu wahanol ar siaradwyr Cymraeg, ardaloedd Cymraeg neu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg nag y bydd ar eu cymheiriaid sy'n siarad Saesneg.

Y camau nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno trothwy incwm net blynyddol a enillir o £7,400 ar gyfer hawlwr y Credyd Cynhwysol sy'n dymuno hawlio prydau ysgol am ddim ar gyfer eu plant, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2019. Cyflwynir cynnig i amddiffyn wrth bontio law yn llaw â hyn, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori.

Fel y nodir uchod, rydym yn ymwybodol iawn y bydd angen arweiniad manwl ar ysgolion ac awdurdodau lleol ar y meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ogystal â chanllawiau cynhwysfawr ar sut i brosesu hawliadau. Er mwyn sicrhau bod y newid i'r system newydd ar gyfer prosesu hawliadwrthau a gyflwynir gan y newidiadau yn y meini prawf cymhwysedd yn digwydd mor ddiraffferth â phosibl, rydym yn sicrhau bod rhaglen o gymorth rheoli newid unigol ar gael i awdurdodau lleol yn y cyfnod cyn 1 Ebrill 2019, a fydd yn cynnwys canllawiau manwl ar faterion allweddol.

²¹ Re-thinking Educational Attainment and Poverty (REAP) - in Rural Wales (November 2017): https://research.bangor.ac.uk/portal/files/21807216/ap_Gruffudd_G.S._et_al._2017_REAP_Rethinking_Educational_Attainment_and_Poverty_in_Rural_Wales_Final_Report.pdf

Byddwn yn sicrhau hefyd fod gwybodaeth am y meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gael i deuluoedd/aelodau'r cyhoedd drwy wefan Llywodraeth Cymru, a byddwn yn annog awdurdodau lleol i gyfathrebu â theuluoedd yn eu hardal am y newidiadau.